***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 1634

# Rheoliadau Mabwysiadu Plant o Wledydd Tramor (Cymru) (Diwygio) 2003

**Diwygio'r Prif Reoliadau**

**2.**—(1) Yn rheoliad 2 o'r Prif Reoliadau (Dehongli) tynnir y cyfeiriad at "Rheoliadau 2001" a'r diffiniad.

(2) Yn rheoliad 3(1)(a) o'r Prif Reoliadau (Dyletswyddau asiantaeth fabwysiadu a swyddogaethau panel mabwysiadu mewn perthynas â darpar fabwysiadydd), tynnir y geiriau "rheoliad 3(2)(a) o Reoliadau 2001" a rhoi yn eu lle y geiriau "rheoliadau a wnaed o dan adran 56A o Ddeddf Mabwysiadu 1976(**1**)".

(**1**) 1976 p. 36. Mewnosodwyd adran 56A gan adran 14 o Ddeddf Mabwysiadu (Agweddau Rhyngwladol) 1999 (p.18). Bydd rheoliadau 2001, a wnaed o dan adran 56A, yn peidio â bod yn effeithiol o'r diwrnod pan ddaw i rym adran 56A newydd a gaiff eu cyflwyno gan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38).